Datganiad i'r Wasg gan Sefydliad Joseph Rowntree
I'w ryddhau ar unwaith: Dydd Mercher 30 Ionawr 2008

Gofyn i bobl Gorllewin Cymru rannu'u pryderon ynghylch tai gwledig â Chomisiwn annibynnol

Mae Comisiwn pwysig ar dai gwledig yng Nghymru'n cynnal ei sesiwn dystiolaeth ranbarthol ar gyfer De Cymru yn Aberystwyth ar 7 Chwefror ym Mhrifysgol Aberystwyth – ar gampws Penglais. Bydd **Comisiwn Sefydliad Joseph Rowntree ar Dai Gwledig yng Nghymru** yn cynnig dealltwriaeth annibynnol am y mater sy'n ymwneud â'r angen am dai yng Nghymru wledig. Er mwyn gwneud argymhellion gwybodus mewn perthynas â pholisïau yn y gwanwyn, mae'r Comisiynwyr ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gael dealltwriaeth drylwyr am y sefyllfa o ran tai gwledig ledled Cymru.

Digwyddiad heddiw (7 Chwefror) yw'r olaf o chwe sesiwn derbyn tystiolaeth sydd wedi cael eu cynnal ar hyd a lled y wlad dros y misoedd diwethaf. Yn y sesiynau hyn, mae'r Comisiwn yn clywed cyfraniadau gan arbenigwyr ar bolisi, ymarferwyr a'r cyhoedd. Mae'r Comisiynwyr yn awyddus i glywed gan gymaint o bobl â phosib am eu profiadau o fyw mewn cymunedau gwledig a chanfod sut y gellid mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thai yn eu tyb hwy. Os hoffech fynychu, cysylltwch â Roger Harding yn ruralhousingwales@jrf.org.uk neu ar 020 7833 2997. Os nad ydych yn gallu mynychu ond eich bod yn dymuno cyflwyno tystiolaeth, mae'r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi papur ymgynghori ac yn ceisio ymatebion iddo. Mae'r papur ar gael yn www.jrf.org.uk/ruralhousingwales, neu gallwch ofyn am gopi trwy ffonio'r rhif uchod.

Yn ogystal â'r sesiynau derbyn tystiolaeth a'r papur ymgynghori, bydd y Comisiwn yn tynnu ar ymchwil bresennol yn y maes ac yn archwilio tystiolaeth newydd ar y mater. Bydd y Comisiynwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio argymhellion ar gyfer gwneuthurwyr polisïau ac ymarferwyr.

Derec Llwyd Morgan, a fu'n Is-Ganghellor Prifysgol Cymru (Aberystwyth) tan 2004, yw Cadeirydd y Comisiwn. Bydd yr adroddiad

terfynol ar ganfyddiadau'r Comisiwn yn cael ei ysgrifennu gan yr academydd blaenllaw, yr Athro Paul Milbourne o Brifysgol Caerdydd.

Meddai Derec Llwyd Morgan: "Mae'r Comisiwn hwn yn gyfle gwych i'r cyhoedd ac arbenigwyr ar dai yng Nghymru rannu'u safbwyntiau o ran beth yw'r gwir anghenion tai yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at glywed gan bobl yng Nghaerfyrddin a'r cylch am yr hyn y gellir ei wneud i ymateb i'w pryderon ynghylch tai."

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

1. Mae Derec Llwyd Morgan ar gael ar gyfer cyfweliadau.
2. Dylai newyddiadurwyr sy'n dymuno mynychu'r digwyddiad gysylltu â Charlotte Morris ar y rhif isod.
3. Y Comisiynwyr yw: Derec Llwyd Morgan (Cadeirydd), Aneurin Philips, Vivienne Sugar, Tim Bennett, Iwan Parry ac Owain Llywelyn.
4. Sefydliad Joseph Rowntree yw un o'r elusennau mwyaf yn y DU ym maes ymchwil a datblygu cymdeithasol. Mae'n rhoi cymorth i raglen ymchwil a datblygu sy'n ceisio deall achosion anawsterau cymdeithasol ac archwilio ffyrdd o'u goresgyn.

Cyhoeddwyd gan Charlotte Morris, Uwch Reolwr Cysylltiadau â'r Cyfryngau yn Sefydliad Joseph Rowntree:
01904 615 919 / 07800 615 105 / 020 7278 9665 charlotte.morris@jrf.org.uk